# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015** |
| Amser: | **10.00 – 11.34** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3010**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Altaf Hussain AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC** |
| Tystion: | **Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**David Pritchard, Llywodraeth Cymru**<br>**Kate Johnson, Llywodraeth Cymru**<br>**Mari Williams, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Helen Finlayson (Ail Glerc)**<br>**Catherine Hunt (Ail Glerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

Amy Clifton (Ymchwilydd)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Kirsty Williams. Dirprwyodd Mike Hedges ar ran Lynne Neagle.

## 2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): sesiwn dystiolaeth 17

2.1 Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan Aelodau.

2.2 Cytunodd y Gweinidog:

- i ddarparu nodyn ar lwybrau gwneud yn iawn neu lwybrau apêl i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag asesiadau cymhwysedd;
- i ddarparu nodyn ar yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gontractau dim oriau, gan nodi sut y gellir mynd i'r afael â'r defnydd o gontractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol drwy'r Bil; ac
- i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn canfod dichonoldeb cyflwyno darpariaethau priodol yn y Bil i ddiogelu unigolion sy'n dymuno chwythu'r chwiban ar arferion gwael a all roi unigolion eraill mewn perygl.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015.

3.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2015.

3.2 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gwybodaeth ychwanegol

3.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Age Cymru, Cynghrair Henoed Cymru, a'r Gymdeithas Brydeinig dros Fabwysiadu a Maethu. Nodwyd hefyd fod gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law gan y Rhwydwaith Maethu a chan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon at yr Aelodau a'i chyhoeddi ar y dudalen we ar gyfer y Bil.

3.3 Ymchwiliad i'r gweithlu Meddygon Teulu yng Nghymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.